Cyngor Celfyddydau Cymru

# Cylch Gorchwyl

# Is-bwyllgor Cyfalaf

Gorffennaf 2024

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government
Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

## Cylch Gorchwyl

Mae gwaith y Cyngor yn cael ei gychwyn, ei reoli a'i fonitro gan y Cyngor ei hun a chan gyfres o Bwyllgorau y mae'r Cyngor yn dirprwyo rhai pwerau penodol iddynt. Mae'r Pwyllgorau islaw'r Cyngor yn y strwythur Llywodraethu. Ar wahân i'r meysydd hynny lle mae'r Cyngor wedi dirprwyo tasgau diffiniedig a/neu awdurdod diffiniedig i weithredu, rôl cynghori sydd gan y Pwyllgorau. Maent yn adrodd i'r Cyngor ar berfformiad y gweithgareddau hynny sy'n dod o fewn cylch gwaith pob Pwyllgor. Bydd y Pwyllgorau hefyd yn dwyn i sylw'r Cyngor unrhyw faterion sy'n peri pryder, neu feysydd ar gyfer gwella.

Mae tri phwyllgor ac un is-bwyllgor gyda grymoedd dirprwyedig:

- Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl
- Pwyllgor Adnoddau Dynol a Thâl
- Pwyllgor y Gymraeg, Diwylliant a Chydraddoldeb

Mae Pwyllgor y Gymraeg, Diwylliant a Chydraddoldeb yn ymgorffori gwaith y pwyllgorau blaenorol Cenedlaethau'r Dyfodol, Cydraddoldeb Strategol a'r Gymraeg gan sicrhau dull integredig a chydlynol o bob un o'r meysydd i ddatblygu a chynyddu pob un.

Mae gan Is-bwyllgor Cyfalaf y Cyngor hefyd rymoedd i wneud penderfyniadau am grantiau cyfalaf gan wneud argymhellion i'r Cyngor am geisiadau grant sy'n uwch na'i awdurdod. Bydd yr Is-bwyllgor yn cyfathrebu i Bwyllgor y Gymraeg, Diwylliant a Chydraddoldeb ei gyngor a, lle bo'n briodol, ei benderfyniadau. Felly, mae'n cynnwys ei waith yn natblygiad polisi a phrosesau perthnasol ar draws gwaith ehangach y Cyngor gan gynnwys datblygu rhaglenni grant.

Mae hefyd un Grŵp – Iechyd a Diogelwch – sy'n adrodd i'r Cyngor drwy ei gofnodion a'i Adroddiad Blynyddol sy'n mynd i'r Cyngor gan Gadeirydd y Grŵp, y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes.

Nodir cylch gwaith penodol yr Is-bwyllgor hwn isod.

Mae Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Cyfalaf yn cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Cyngor bob blwyddyn. Cafodd y ddogfen hon ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2024.

### Rôl yr Is-bwyllgor:

1. Drwy adrodd i Bwyllgor y Gymraeg, Diwylliant a Chydraddoldeb, cynghori'r Cyngor ar ddatblygu polisi Cyngor y Celfyddydau ar bob agwedd ar ddatblygu cyfalaf, gan gynnwys blaenoriaethau cyllido a chynlluniau.

2. Argymell grantiau cyfalaf i'r Cyngor.

3. Monitro ein cyfrifoldebau ar gyfer prosiectau allweddol, gan gynnwys y rhai y gallwn gyfrannu atynt.

4. Gwneud penderfyniadau o fewn ei awdurdod dirprwyedig fel y'i pennir gan y Cyngor.

5. Monitro prosiectau byw a chynghori'r Cyngor yn unol â hynny, drwy adrodd i Bwyllgor y Gymraeg, Diwylliant a Chydraddoldeb

**Cadeirydd:** Aelod o'r Cyngor

**Penodir gan:** Y Cyngor

**Aelodau:** 7 ar y mwyaf

Os oes swydd wag yn codi yng nghanol y tymor, neu'n dal i fod yn wag ar ôl hysbyseb agored, gellir cyfethol aelodau am weddill y tymor, hyd y cylch recriwtio nesaf.

**Cworwm :** 50% neu 3 aelod ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod, y mae'n rhaid i un ohonynt fod yn aelod o'r Cyngor, pa un bynnag yw'r mwyaf

**Penodir gan:** Y Cyngor.

**Atebolrwydd:** Mae'r Is-bwyllgor wedi'i rwymo gan god moesegol y Cyngor fel y'i nodir yn y Cod Ymarfer Gorau. Mae'n ofynnol i'r aelodau lenwi ffurflen flynyddol i ddatgan buddiant a darparu diweddariadau os yw amgylchiadau aelod yn newid. Mae hefyd yn ofynnol i'r aelodau ddatgan unrhyw fuddiant ym mhob cyfarfod.

Os bydd gwrthdrawiad buddiant yn codi bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r aelod adael y cyfarfod am gyfnod y drafodaeth ddilynol a'r penderfyniad. Fodd bynnag, rhaid i'r cyfarfod fod â chworwm o hyd er mwyn i benderfyniad gael ei wneud.

| | |
|---|---|
| Cyfarfodydd: | Hyd at chwe gwaith y flwyddyn. Mae dyddiadau'r cyfarfodydd i gael eu pennu ymlaen llaw ar gyfer pob blwyddyn. |
| Papurau: | Caiff y papurau eu dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor wythnos cyn y cyfarfod. |
| Grantiau: | Mae'r Is-bwyllgor yn gwneud penderfyniadau ar grantiau hyd at £250,000<br><br>Mae'n argymell i'r Cyngor benderfyniadau ar grantiau cyfalaf dros £250,000. |
| Adrodd: | Bydd yr Is-bwyllgor yn adrodd i Bwyllgor y Gymraeg, Diwylliant a Chydraddoldeb a bydd Cadeirydd yr Is-bwyllgor yn mynd i'r cyfarfodydd hyn drwy gydol y flwyddyn. Bydd yr Is-bwyllgor yn rhoi gwybod am ei waith yn ystod y flwyddyn a aeth heibio i'w gynnwys yn adroddiad blynyddol Bwyllgor y Gymraeg, Diwylliant a Chydraddoldeb i'r Cyngor. Caiff yr Is-bwyllgor ei gynghori yn bennaf gan swyddogion yn y Tîm Buddsoddi a Chyllido, yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Corfforaethol, y mae ei adroddiadau'n cynnwys cyngor oddi wrth swyddogion timau eraill Cyngor y Celfyddydau. Gall wneud argymhellion i unrhyw un o Bwyllgorau Cyngor y Celfyddydau neu i'r Cyngor. |
| Cofnodion cyfarfodydd a chofnodion: | Caiff cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor eu darparu i gyfarfod nesaf y Cyngor. Mae'r holl bapurau a'r cofnodion cyfarfodydd dilynol yn cael eu ffeilio yn ffolder yr Is-bwyllgor Cyfalaf yn system rheoli data a chofnodion electronig y Cyngor. |
| Diweddarwyd: | Caiff y ddogfen hon ei hadolygu i wirio ei chywirdeb bob blwyddyn a chafodd y fersiwn hon ei chymeradwyo gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2024. |